**Ein Cartref, Ein Cynefin**
**Lleoedd Lleol i Natur Cynllun Grantiau 25/26**

Mae gan Bartneriaeth Natur Ceredigion arian ar gyfer prosiectau i greu, adfer neu wella asedion naturiol a darparu natur wrth eich drws lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad i wasanaethau cyhoeddus. Caiff y cynllun ei ariannu gan gronfa Lleoedd Lleol i Natur gan Lywodraeth Cymru.
Rhaid i brosiectau:

- Gefnogi gweithgareddau a gweithredu sy'n adfer ac yn gwella natur.
- Greu 'lleoedd i natur' y gellir eu gweld o ddrws eich tŷ. Mae hyn yn cynnwys lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad i wasanaethau cyhoeddus.
- Canolbwyntio ar ardaloedd difreintiedig, trefol ac o gwmpas trefi a rhai lle nad oes llawer o fynediad i natur.
- Canolbwyntio ar gefnogi grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, a chymunedau difreintiedig.
- Darparu gwelliannau i natur a rhai sy'n garedig i bobl mewn man heb ddim effeithiau andwyol ar y fioamrywiaeth frodorol sydd yno eisoes.
- Annog y gymuned i gymryd rhan ac ymgysylltu er mwyn i bobl allu cael profiad o natur a'i gwerthfawrogi.

Arian cyfalaf yw hwn – gall gael ei ddefnyddio i brynu 'pethau', ond nid i dalu costau parhaus fel cyflogau neu gostau rhedeg cyffredinol. Rhaid ichi ddangos sut y byddwch yn cynnal a chadw eich prosiect am i o leiaf 5 mlynedd ar ôl diwedd yr ariannu hwn.

Caiff y prosiectau eu penderfynu gan banel grantiau yn ôl system o bwyntiau. Rhoddir pwyntiau uwch i brosiectau a fydd o'r budd mwyaf i fioamrywiaeth.
Mae rhai syniadau ar gyfer prosiectau posibl yn cynnwys plannu coed ar strydoedd, perllannau, gweirgloddiau blodau gwylltion neu greu mannau tyfu cymunedol a/neu randiroedd yn eich ardal; creu man gwyrdd ar adeiledau ac wynebau artiffisial mewn mannau trefol; gwella mynediad i hen safleoedd a rhai newydd i wneud y mwyaf o fynediad teg i bawb; newid arferion torri gwair i fod o les i fioamrywiaeth; prynu offer codi sbwriel; neu osod blychau nythu a thrapiau camera.

Gwahoddir ceisiadau gan Grwpiau Cyfansoddol, Elusennau Cofrestredig, Cwmnïau, Busnes Preifat a chyrff y Sector Cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i fod o fudd i natur a chymunedau yng Ngheredigion.

Rydym yn croesawu cynigion am brosiectau hyd at £25,000. Sylwch y caiff pob grant ei ôl-dalu ar ôl derbyn tystiolaeth o'r gwariant: gellir trefnu talu mewn rhandaliadau. Os hoffech drafod hyn, cofiwch gysylltu.
**Mynegi diddordeb ar hyn o bryd**. Gall hyn fod ar ffurf paragraff byr yn esbonio beth yr hoffech ei wneud, ble fydd hynny a faint rydych yn debygol o ofyn amdano. Dyddiad cau i'w gadarnhau.
Anfonwch eich Mynegiant o Ddiddordeb neu unrhyw ymholiadau drwy e-bost i biodiversity@ceredigion.gov.uk

**Ein Cartref, Ein Cynefin**
**Local Places for Nature Grants Scheme 25/26**

Ceredigion Nature Partnership has funding for projects to create, restore or enhance natural assets and to deliver nature on your doorstep where people live, work and access public services. The scheme is funded by the Welsh Government's Local Places for Nature fund. Projects must:

- Support activities and actions that restore and enhance nature.
- Create 'places for nature' that can be seen 'from your doorstep'. This includes where people live, work and access public services.
- Focus on areas of deprivation, urban and peri-urban areas and those with little access to nature.
- Focus on supporting underrepresented groups and disadvantaged communities.
- Deliver nature and people friendly improvements to a space without any detrimental effects to the native biodiversity already there.
- Encourage community participation and engagement to enable people to experience and value nature

This is **capital funding** – it can be used to buy 'things' but not pay for ongoing costs like salaries or general running costs. You must show how you will maintain your project for at least 5 years after the end of this funding.

Projects will be decided by a grant panel on a points system. Higher points will be awarded to projects with the greatest benefits to biodiversity.
Some ideas for potential projects include planting street trees, orchards, wildflower meadows or creating community growing spaces and /or allotments in your area; creating green space on artificial structures and surfaces in urban areas; improving access to existing or new sites to maximise equitable access to all; changing mowing practices to benefit biodiversity; purchasing litter picking equipment; or putting up nest boxes and camera traps.
Applications are invited from Constituted Groups, Registered Charities, Companies, Private Business and Public Sector organisations providing services to benefit nature and communities in Ceredigion.

We welcome bids for projects worth up to £25,000. Please note that all grants will be paid in arrears on receipt of evidence of expenditure; payment by instalment can be arranged. If you wish to discuss this, please get in touch.
**Expressions of interest welcomed at this stage**. This can be the form of a brief paragraph explaining what you would like to do, where it will be and how much you are likely to be asking for. Closing date to be confirmed.
Please email your Expression of Interest or any queries to biodiversity@ceredigion.gov.uk